Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl316

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** Pawennau ar Batrôl 2023-24

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn Sir Benfro yn 2022-23 (DLl284), mae Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cydweithio er mwyn lansio cynllun 'Pawennau ar Batrôl' ledled ardal Dyfed-Powys.

Y nod yw annog cerddwyr cŵn i helpu â'r frwydr yn erbyn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy adrodd a chasglu tystiolaeth pan fyddant allan yn cerdded gyda'u hanifeiliaid anwes. Mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo gan dîm lleihau tanau bwriadol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Thimoedd Plismona Bro Heddlu Dyfed-Powys. Mae perthnasau gwaith cadarnhaol yn datblygu gyda Pharciau Cenedlaethol a Gwarchod Treftadaeth er mwyn ehangu'r cynllun hwn.

Bydd aelodau'n derbyn pecyn croeso a chylchlythyr bob yn ail fis sy'n llawn gwybodaeth a chyngor ar gyfer atal trosedd. Defnyddir yr arian i dalu am becynnau croeso a baneri i hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn y gymuned ac mewn digwyddiadau lleol. Bydd y faner 'Pawennau ar Batrôl' yn cael ei hyrwyddo gan yr heddlu, y gwasanaeth tân, wardeiniaid cŵn a chynghorau cymuned mewn digwyddiadau lleol er mwyn annog aelodaeth ac ymgysylltu.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi blaenoriaeth Atal Niwed y Cynllun Heddlu a Throseddu ac yn cyd-fynd â'r gwerth o ymgysylltu'n eang drwy hyrwyddo a datblygu mwy o gysylltiad cymunedol mewn plismona.

**Argymhelliad:**
Cymeradwyo rhoi £3,745.00 o'r gronfa Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo i gefnogi cyflwyno'r cynllun 'Pawennau ar Batrôl' yn rhanbarthol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 28/09/23**